

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
Mehfin 24, 2019**

Presennol: Geraint Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies, Eleri Jones, Emyr Jones, W D Williams, Cynghorydd Gwynedd, Alan Jones Evans a Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau Tyly Roberts a Gwyn Roberts.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.

4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 13/5/19.

5. Materion y Clerc: Adroddwyd fod clochdy'r Eglwys wedi ei thrwsio erbyn hyn. Addawodd Clwyd Davies i archwilio i weld a oedd gweddill y gwaith angenrheidiol wedi ei wneud cyn i'r Clerc gysylltu gyda Pharc Cenedlaethol Eryri.

Cytunwyd i ofyn am doriad ychwanegol i wair y fynwent eleni a chytunwyd i dalu am hyn bob tro mae'r gwaith yn cael ei orffen.

6. Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir: Bydd Dylan Davies Cyngor Gwynedd yn adrodd yn ôl yn fuan ar finiau ardal Cefn Meirch. Mae'r clo i gorlan biniau Llangywer wedi malu a llawer o sbwriel wedi ei luchio yno a ddylid fod wedi ei gludo i'r safle ail-gylchu. Bydd Alan Jones Evans yn gofyn am osod camera yno. Bydd tocio'r coed wrth bont Rhosygwaliau yn cael ei wneud yr wythnos hon i wella gweledd o ardal Cymerig. Bydd gwaith cynnal y bont yn cael ei wneud cyn diwedd yr haf. Bydd camera yn cael ei osod i fesur cyflymdra drwy Langywer. Dywedodd ei fod yn falch mai contractwyr lleol sydd wedi cael y gwaith o dorri gwair hyd ochrau'r ffyrdd. Enwyd sawl cyffordd lle mae angen torri gwair er mwyn diogelwch ac addawodd y Cynghorydd y byddai'n trefnu i hyn gael ei wneud.

7. Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned -gweler uchod.

8. Materion Cyllid:

- i. Derbyniwyd adroddiad yr Archwilydd Mewnol.
- ii. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn Ariannol 2018 - 19, gan gynnwys Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer Cyngor Cymuned Llangywer a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/19.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol gyfredol, ac fe'i cafwyd yn dderbyniol.
- iv. Nid oedd taliadu na derbyniadau.

9. Partneriaeth Penllyn: Nid oedd adroddiad heblaw y cynhelir cyfarfod yr wythnos hon.

10. **Gohebiaeth:**

Parc Cenedlaethol Eryri: Cymeradwywyd cais NP5/70/6F i gadw'r man caled wedi ei godi, gweithdy, storfa fwyd a storfa slyri, to dros iard a'r pwll derbyn slyri ynghyd a phwll gwaelodion cysylltiol ym Maesafallen, Rhosygwaliau.

Derbyniwyd gwybodaeth am Ganllaw Cynllunio ar "Llety Ymwelwyr".

Cyngor Gwynedd : Derbyniwyd Rhaglen waith mis Mehefin yn sôn am arwisgo ffordd 212 o gyffordd B4391 i Neuadd Aberhirnant.

Un Llais Cymru: derbyniwyd gwybodaeth am fydlau hyfforddiant ar lein (e-bostiwyd)

Cytunwyd bod y gorsafoedd pleidleisio perthnasol yn addas ac yn dderbyniol

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Medi'r 9fed 2019